**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 19eg o Fedi 2017.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury

**Ymddiheuriadau:** Dim

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy fynegi tristwch mawr o golli 'r Cynghorydd Gwynfor Lloyd Jones a fu farw ar 7 Medi 2017 - cafwyd munud o ddistawrwydd i gofio amdano.

**1. Datganiad o ddiddordeb:** Dim

**2. Cofnodion cyfarfod 18fed o Orffennaf 2017:**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

**3. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. **Cae Chwarae:** Adroddwyd nad oedd G. L . Jones Playgrounds yn ymateb i geisiadau am bris ar gyfer gwneud y gwaith ar y cae chwarae, ac nid oedd Medwyn Owen (Arolygydd) a'i dîm ar gael i wneud y gwaith peintio tan o leiaf mis Chwefror 2018. Cafwyd manylion am gwmni arall gan glerc Cyngor Cymuned Llanfaelog a bydd y clerc yn cysylltu gyda nhw.

2. **Llochesi Bws:** Roedd yr yswirwyr wedi talu am y gwaith atgyweirio ar y llochesi ac roedd William Evans a Sons Ltd. wedi cyflawni'r gwaith. Fodd bynnag, roedd y panel roeddent wedi ei osod ar loches Bws Minffordd Road wedi dod yn rhydd eto bron yn syth ar ôl i'r gwaith gael ei wneud. Roedd y clerc yn mynd â'r mater hwn gyda'r cwmni cyn i'r taliad gael ei ryddhau.

3. **Llwybrau:** Penderfynwyd adolygu'r rhaglen torri'r llwybrau cyhoeddus ac i roi rhestr ac amserlen newydd i GMS Ground Maintenance. Nodwyd hefyd nad oedd yr holl lwybrau wedi'u cynnwys ar y 'rhestr ddiffiniedig' a luniwyd gan CSYM.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

4. Seddi Gwag: byddai'r clerc yn hysbysu CSYM bod y cyngor Cymuned am fynd ymlaen i hysbysebu'r rhain.

5. **Gwaith cynnal - Stad Treifan** - cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn am gyngor pellach ynglŷn â maint y gwaith sydd angen ei wneud ar y wal yn geg y stad.

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

**4. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Ceisiadau Cynllunio

32C203 – Berley, Ffordd Cymyran – Cais llawn i addasu ac ehangu.

Penderfyniadau cynllunio
32EL1530A/E/SCR - Barn scrinio ar gyfer gosod llinell 132kV uwchben y ddaear am oddeutu 750m (i'r gogledd o Gaergeiliog) ynghyd â chebl 650m dan ddaear i is-orsef Caergeiliog. - cytunwyd

32C68N Ysgol Sefydledig Caergeiliog - Cais i godi dosbarth – cytunwyd.

32C201 – 1 Alltwen Goch – Cais ôl-weithredol i godi modurdy. – cytunwyd.

32C144C/VAR – 22 Zealand Park, Caergeiliog – Diwygio amod cais 32C144A – cytunwyd.

**5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned (cofnodion) - nodwyd

2. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd

3. Aelodau Cyngor Tref/Cymuned o Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn - cytunwyd i enwebu Cynghorwyr Keith Roberts (Cyngor Cymdeithas Trearddur) a'r Cynghorydd Iorweth Roberts (Cyngor Cymuned Bryngwan) i eistedd ar y Pwyllgor Safonau.

3. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - nodwyd

4. Ymgynghoriad Llyfrgelloedd Ynys Môn - nodwyd.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

5. Gwasanaeth Sul y Cadeirydd – Roedd y Cadeirydd am fynychu hwn.

**6. Yn y banc ar 19.9.2017 Cyfrif Cyfredol £11,953.75, Cyfrif Cadw £3,921.50**

**<u>Taliadau i'w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Gorff. ac Awst) | £359.84 | HMRC (TWE) | £90.00 |
| GMS (INV- 2281) | £451.20 | | |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

7. **Cyfrifon 2016/17**

Dim i'w adrodd yn ôl gan yr archwilwyr allanol ar gyfrifon 2016/17.

**8. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data - y clerc i adrodd ar hwn mis nesaf
2. Adroddiad Blynyddol Drafft RPW
3. Bwletin Un Llais Cymru
4. Dyddiadau Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru
5 Ymgynghoriad: Canllaw I Brif Gynghorau

**9. Unrhyw fater arall**

Nodwyd fod y llwybr y tu ôl i Rhif 18 i 21 Treifan angen sylw- byddai'r clerc yn hysbysu CSYM

**10. Cyfarfod nesaf 17eg o Hydref 2017.**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………